# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 5**

DARPARIAETH ATODOL

**PENNOD 6**

ACHOSION ARBENNIG

*Personau sy'n rhedeg busnes tirlenwi yn newid*

**85 Marwolaeth, analluedd ac ansolfedd**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo person ("A") yn rhedeg busnes tirlenwi person arall ("B") sydd wedi marw, wedi mynd yn analluog neu wedi dod yn destun gweithdrefn ansolfedd.

(2) Rhaid i A roi hysbysiad i ACC ynglŷn ag—

(a) y ffaith bod A yn rhedeg y busnes tirlenwi, a

(b) natur a dyddiad y digwyddiad sydd wedi arwain at y ffaith bod A yn ei redeg.

(3) Rhaid i'r hysbysiad gael ei roi cyn diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y dechreuodd A redeg y busnes tirlenwi.

(4) Caiff ACC drin A fel pe bai A yn B at ddibenion y dreth, gydag effaith o'r adeg y dechreuodd A redeg y busnes tirlenwi; a chaiff ACC wneud hynny pa un a yw A wedi rhoi hysbysiad o dan is-adran (2) ai peidio.

(5) Rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i A (ac, os yw'n briodol, i B) am benderfyniad i drin A fel pe bai'n B.

(6) Os yw ACC yn trin A yn y fath fodd, nid yw'n ofynnol i A fod yn gofrestredig, na gwneud cais i gael ei gofrestru, yn rhinwedd y driniaeth honno.

(7) Os yw—

(a) B yn peidio â bod yn analluog neu'n destun gweithdrefn ansolfedd, neu

(b) A yn peidio â rhedeg busnes tirlenwi B,

rhaid i A roi hysbysiad i ACC am y ffaith honno a'r dyddiad y digwyddodd hynny.

(8) Rhaid i'r hysbysiad gael ei roi cyn diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad hwnnw.

(9) Rhaid i ACC beidio â thrin A fel pe bai'n B os yw—

(a) ACC wedi ei fodloni bod y naill neu'r llall o'r amodau yn is-adran (7) wedi ei fodloni (pa un a yw A wedi rhoi hysbysiad o dan yr is-adran honno ai peidio), neu

(b) ACC yn canslo cofrestriad B.

(10) Rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i A (ac, os yw'n briodol, i B) am benderfyniad i beidio â thrin A fel pe bai'n B.

(11) At ddibenion yr adran hon, daw person yn destun gweithdrefn ansolfedd—

(a) os gwneir y person yn fethdalwr;

(b) os yw trefniant gwirfoddol ar ran cwmni yn cael effaith mewn perthynas â'r person o dan Ran 1 o Ddeddf Ansolfedd 1986 (p. 45);

(c) os yw'r person yn mynd i ddwylo'r gweinyddwr neu'n destun datodiad neu dderbynyddiad;

(d) os yw unrhyw ddigwyddiad cyfatebol yn digwydd sy'n cael effaith o dan gyfraith yr Alban neu Ogledd Iwerddon neu wlad neu diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig, neu o ganlyniad iddi.